❖ Y Doethion yn Ymholi

Ai dyma'r ffordd i Fethlehem?
O! pa mor bell yw'r daith?
Mae'r nos yn hir a'r awel lem
Yn chwipio dros y paith.

Ai dyna'r seren ddisglair, glir,
A welsom ddyddiau'n ôl?
Mae'i golau'n llifo dros y tir,
Rhaid dilyn ar ei hôl.

Ai dyma wlad Jwdea dlos
A henfro Dafydd gynt?
Mae rhyw dangnefedd lond y nos
A gobaith lond y gwynt.

A welwch olau llusern draw
Uwch drws y llety llwm?
Mae miwsig rhyfedd ar bob llaw
A'r mawl yn llanw'r cwm.

Ai dyma'r baban bach a roed
Yn Geidwad i'r holl fyd?
Ni welsom neb fel Hwn erioed,
O! plygwn ger ei grud.

W. Rhys Nicholas